# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 30
19/10/20

## Diolchgarwch - y heuwr

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Greg Leavers
a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net

Dwedodd y stori yma pan oedd tyrfa fawr o bobl o wahanol drefi wedi casglu at ei gilydd: “Aeth ffermwr allan i hau hadau. Wrth iddo wasgaru'r had, dyma beth ohono yn syrthio ar y llwybr. Cafodd ei sathru dan draed, a dyma'r adar yn ei fwyta. Dyma beth ohono yn syrthio ar dir creigiog, ond wrth ddechrau tyfu dyma fe'n gwywo am fod dim dŵr ganddo. A dyma beth yn syrthio i ganol drain. Tyfodd y drain yr un pryd a thagu'r planhigion. Ond syrthiodd peth ohono ar bridd da. Tyfodd hwnnw, a rhoddodd gnwd oedd gan gwaith mwy na beth gafodd ei hau.”



Ar ôl dweud hyn, galwodd allan yn uchel, “Gwrandwch yn ofalus os dych chi'n awyddus i ddysgu!”

Yn nes ymlaen dyma'i ddisgyblion yn gofyn iddo beth oedd ystyr y stori. Atebodd Iesu, “Dych chi'n cael gwybod beth ydy'r gyfrinach am deyrnasiad Duw, ond i eraill dw i ddim ond yn adrodd straeon, felly, ‘Er eu bod yn edrych, chân nhw ddim gweld; er eu bod yn gwrando, chân nhw ddim deall.’


Dyma beth ydy ystyr y stori: Neges Duw ydy'r hadau. Y rhai ar y llwybr ydy'r bobl sy'n clywed y neges, ond mae'r diafol yn dod ac yn cipio'r neges oddi arnyn nhw, i'w rhwystro nhw rhag credu a chael eu hachub. Y rhai ar y tir creigiog ydy'r bobl hynny sy'n derbyn y neges yn frwd i ddechrau, ond dydy'r neges ddim yn gafael ynddyn nhw. Maen nhw'n credu am sbel, ond pan ddaw'r amser iddyn nhw gael eu profi maen nhw'n rhoi'r gorau iddi. Yna'r rhai syrthiodd i ganol drain ydy'r bobl sy'n clywed y neges, ond mae poeni drwy'r adeg am bethau fel cyfoeth a phleserau yn eu tagu, a dŷn nhw ddim yn aeddfedu. Ond yr hadau syrthiodd i bridd da ydy'r bobl hynny sy'n clywed y neges ac yn dal gafael i'r diwedd – pobl sydd â chalon agored ddidwyll. Mae'r effaith ar eu bywydau nhw fel cnwd anferth.”

*Luc 8:4-15 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Dywedodd Iesu stori wrth y dyrfa. “Aeth ffermwr allan i hau hadau. Wrth iddo hau dyma ychydig o hadau yn syrthio ar y llwybr a dyma’r adar yn dod a’i bwyta. Syrthiodd ychydig ar dir creigiog, a dechreuon nhw dyfu ond doedd dim digon o bridd i’r gwreiddiau felly wnaethon nhw wywo. Syrthiodd ychydig i ganol drain ac wrth i’r planhigion dyfu, wnaethon nhw gael eu tagu gan y drain. Syrthiodd ychydig ar dir da a thyfodd y planhigion a chafwyd cynhaeaf da”.

Gofynnodd y disgyblion i Iesu egluro ystyr y stori. “Y ffermwr ydy’r un sydd yn rhannu neges Duw a’r had ydy’r neges. Mae calonnau rhai pobl fel y llwybr, maen nhw’n clywed y neges ond mae’n cael ei gipio i ffwrdd. Mae calonnau pobl eraill fel y tir creigiog, maen nhw’n derbyn y neges ar y cychwyn ond yn rhoi’r gorau i wrando. Mae calonnau pobl eraill fel tir ble mae’r drain yn tyfu, mae pethau eraill yn eu bywydau’n tagu’r neges. Ond mae clonnau’r bobl sydd yn barod I wrando a derbyn fel tir da, mae eu ffordd o fyw fel cynhaeaf da.



# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti wedi ceisio tyfu planhigion o hadau? Ble ydy’r lle gorau i blannu hadau?
2. Mewn sut fath o lefydd oedd yr hadau yn y stori wedi syrthio?
3. Beth ddywedodd Iesu oedd yr hadau yn y stori?
4. Beth ddywedodd Iesu oedd y pedwar tir gwahanol?
5. Tebyg i ba un o’r pedwar tir fuaset ti’n licio bod?



# Stori i'w lliwio

## Dameg yr Heuwr


www,lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





"Sut fedra i fynd i'r nefoedd?" Rydyn ni i gyd yn gofyn y cwestiwn hwn ac fe ofynnodd Nicodemus hyn hefyd i Iesu. Dyma hanes sydd wedi ei gofnodi yn y Beibl.




Adroddodd Iesu'r ddameg hon am ffermwr yn gwasgaru hadau yn y cae. Roedd o eisiau i'r hadau dyfu'n dda fel ei fod yn cael cynhaeaf mawr.




Syrthiodd rhai o'r hadau ar y llwybr a chawsant eu gwasgu dan draed.




Syrthiodd rhai o'r hadau ar dir da ond daeth adar a'u bwyta.



Syrthiodd rhai eraill o'r hadau ar greigiau ble y dechreuon nhw dyfu ond wnaethon nhw ddim gwreiddio a buont farw oherwydd y gwres a'r sychder.



Syrthiodd rhai o'r hadau ymysg y chwyn a'r drain. Tyfodd y chwyn yn fwy ac ni allai'r planhigion newydd dyfu am nad oedd lle iddynt.



Ond diolch byth, fe syrthiodd rhai o'r hadau ar dir da a thyfu'n gryf ac yn fawr. Daeth cynhaeaf ardderchog o hadau o'r planhigion newydd.




Mae geiriau Duw fel hadau'n tyfu yn ein calonnau. Rydw i eisiau i gariad Duw dyfu'n gryf yn fy nghalon i. Rydw i'n mynd i ddweud wrth bawb am Iesu.




# Gweddi fer

O Dduw,
diolch i Ti am gael clywed y newydd da am dy gariad Di.
Diolch i Ti am y bobl sydd wedi dweud wrtha i amdanat Ti.
Plîs helpa fi i fod yn debyg i'r tir da - yn gwrando o ddifrif ar beth wyt Ti'n ddysgu yn y Beibl.
Amen.

# Sialensau

## Croesair dy hun

Meddylia am bethau rwyt ti'n ddiolchgar amdanyn nhw. Gwna groesair mawr ohonyn nhw gan ddefnyddio llythrennau Scrabble (neu rywbeth tebyg). Gofynna i dy deulu helpu.






## Plannu bylbiau'r gwanwyn

Yn ein stori'r wythnos hon, aeth y dyn allan i hau hadau.

Beth am blannu rhai cennin Pedr, crocysau neu fylbiau gwanwyn eraill?

Byddi angen potyn / twb, compost a rhai bylbiau.
Paid ag anghofio eu dyfrio!

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | Ŵ | R | W | S | A | P | N | H | A | U | P |
| T | C | U | D | E | R | C | A | I | DD | L | O |
| Ŵ | R | H | O | I | B | W | Y | T | A | U | E |
| D | G | A | DD | LL | Y | A | LL | N | E | R | N |
| R | W | U | E | H | W | U | H | O | DD | TH | I |
| G | Y | N | B | D | LL | I | E | N | F | A | D |
| E | W | G | C | N | G | N | E | G | E | S | I |
| G | O | I | G | I | E | R | C | Ŵ | D | Y | G |
| D | I | B | O | A | E | R | I | F | O | R | P |
| C | A | N | T | R | A | S | R | I | N | TH | E |
| D | N | H | A | D | A | U | U | C | A | I | E |
| R | U | G | A | T | D | U | W | L | B | O | P |

ADAR
AEDDFED
BWYTA
CANT
CNWD
CREDU
CREIGIOG
DA
DRAIN
DŴR
GWYWO
HAU
HADAU
HEUWR
IESU
LLWYBR
NEGES
PLANHIGION
POBL
POENI
PRIDD
PROFI
SATHRU
SYRTHIO
TAGU
TRAED


# Gêm

## ‘Chopsticks’ diolch

Mae ‘diolch’ yn air pwysig iawn. Rydyn ni’n cael cymaint o bethau gan Dduw!
Yn y gêm hon, mae cyfle i ddiolch i Dduw am rai ohonyn nhw.

**Byddi angen:**

- ‘Chopsticks’ – pâr i bob chwaraewr neu 2 lwy de bob un
- Cneuen (***newidiwch os oes alergedd cnau***)
- Darn o basta
- Grawnwinen
- Sgwâr o fara




**Sut i chwarae:**

- Mae’r chwaraewyr yn eistedd mewn cylch o gwmpas bwrdd.
- Mae pob chwaraewr yn cael pâr o ‘chopsticks’ neu lwy de.
- Mae’r chwaraewr cyntaf yn codi’r gneuen gyda’r ‘chopsticks’ neu’r llwy de ac yn ei phasio i’r chwaraewr nesaf.
- Wrth wneud hyn mae’r chwaraewr yn dweud, “Diolch, Dduw, am yr heulwen!” neu “Diolch Dduw am fotymau!” neu unrhywbeth!
- Unwaith mae’r gneuen wedi bod o gwmpas y bwrdd, mae’r un peth yn cael ei wneud gyda’r bwydydd eraill.
- Os mae’r chwaraewr yn gollwng y bwyd, mae’n dweud “Diolch, Dduw, am ...” (rhywbeth arall) cyn pasio’r bwyd ymlaen.
- Pa mor gyflym fedrwch chi basio un darn o fwyd o gwmpas y cylch?

# Gweddi Greadigol

## Diolch Deiliog!




- Edrycha ar y byd naturiol o dy gwmpas. Onid ydy o'n rhyfeddol a hardd?
- Edrycha ar yr amrywiaeth o goed a dail, eu lliwiau a'u siapiau.
- Mae pob deilen yn unigryw, yn union fel ag yr wyt ti!
- Dewisa un ddeilen a'i gosod yng nghanol taflen o bapur. Ysgrifenna restr o bopeth rwyt ti'n ddiolchgar amdanynt.
- Mae'n bwysig bod yn ddiolchgar.
- Tra'r wyt ti'n gwneud lluniau neu'n ysgrifennu neu pan wyt ti wedi gorffen diolcha i Dduw am yr holl bethau rwyt ti wedi meddwl amdanyn nhw.


---

## Plât Gwag




- Beth ydy dy hoff fwyd?
- Gwna luniau neu torra luniau allan o gylchgronau o dy hoff fwydydd a'u gludo ar blât papur.
- Mae yna lawer iawn o bobl sydd ddim yn cael digon i'w fwyta yn y wlad hon a thramor.
- Ysgrifenna weddi ar y plât yn gofyn i Dduw roi bwyd i bawb.

# Dolenni



Fideo o'r stori
https://youtu.be/VPp5xx1FV0I




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/DCHB4DAKx3g



Cartŵn o'r stori
http://beibl.net/storir-ffermwr-yn-hau



# Posau

## Yr heuwr

Fedri di weld 7 gwahaniaeth rhwng
y 2 lun?






## Pridd a phobl

Roedd gan Iesu neges yn y stori.
Tynna saeth o'r lluniau at y geiriau cywir.




Pobl yn clywed y neges ac yn dal ati



Pobl yn clywed ond yn anghofio'r neges

Pobl wrth eu bodd gyda'r neges ond yn rhoi fyny



Pobl yn clywed y neges ond pethau eraill yn bwysicach



## Datrys y cod

Allwedd i'r cod:

| A | B | C | CH | D | DD | E | F | FF | G | NG | H | I | L | LL | M | N | O | P | PH | R | RH | S | T | TH | U | W | Y |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |

28,21 12,1,5,1,26 23,28,21,25,13,18,6 13 2,21,13,6 5,1 28,5,28'21 2,18,2,14

12,28,17,17,28 23,28'17 3,14,28,27,7,5 28 17,7,10,7,23 1,3 28,17 5,1,14

10,1,8,1,7,14 13,'21 5,13,27,7,6 – 19,18,2,14 23,28,6 $\hat{1}$ 4,1,14,18,17

1,10,18,21,7,5 6,13,5,27,28,15. 14,26,3 F:LL

# Rysáit ond nid i ti ei fwyta!



## Cacennau Bwyd Adar



**Byddi angen:**
- 500g o hadau ar gyfer adar
- 250g o lard (1 paced)
- Gwlân

**Cyfarwyddiadau:**
- Todda'r lard mewn sosban ond paid â'i ferwi.
- Gad i'r lard oeri ond paid â gadael iddo galedu.
- Cymysga'r hadau â'r lard sydd wedi toddi.
- Rho'r gymysgedd mewn tuniau myffins.
- Torra ddarnau o wlân neu o linyn, gwneud dolen, un ar bob pen, yna gwthia'r ddau ben tua 1cm i mewn i'r gymysgedd.
- Nawr rhaid gadael i'r cacennau bwyd adar galedu.
- Tynna'r cacennau bwyd adar allan o'r tuniau myffins.
- Gosoda'r cacennau i hongian ar y coed er mwyn i'r adar ddod a'u bwyta. Efallai y bydd rhai o'r hadau'n syrthio ar y ddaear ac yn tyfu!



# Canu



Mae Duw yn rhoi i ni bob dydd lawer o bethau da:
Pethau blasus i'w bwyta – tatws, pys a ffa;
Ffrindiau da a theulu – y rhai sy'n ein caru ni;
Rhywle sych i gysgu'n saff a phopeth yn y tŷ.

*Cytgan:*
Diolch, diolch, am y pethau da i gyd.
Diolch i Ti Arglwydd Dduw
- Ti 'dy'r un wnaeth greu'r byd.
Sori am anghofio dweud 'diolch i Ti.'
Diolch Dduw am bopeth, bopeth Ti 'di rhoi i ni.

Mae Duw 'di creu'r byd i gyd
– y mwnci, y gath a'r ci,
Y cangarŵ, yr hipopotamws, yr eryr gyda'i blu,
Y glaswellt yn ein gardd ni, y sêr sydd yn y nen,
Y wawr sy'n cychwyn bob un dydd
a'r machlud haul sydd uwchben.



Pan dwi'n stryglo a dwi'n drist
achos pethau caled sy'n dod
Mae'n anodd i mi ymdopi'n dda
neu ddeall be sy'n bod.
Hyd yn oed yn hyn, dwi'n diolch - Ti gyda fi o hyd
Mae'n gwneud i mi ddibynnu arnat Ti
sy'n dal fy mywyd i.

Fedra i fyth ddeall dy gariad tuag atom ni.
Wnest ti roi dy unig fab i farw ar Galfarî.
Mae dy freichiau'n ymestyn
i'n croesawu ni bob dydd.
Er ein bai, Ti YN maddau
– Ti'n caru ni o hyd.



*Hawlfraint 2020 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/DCHB4DAKx3g
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org